**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 7fed Medi 2016 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, A. R. James, Ms J. McAlpine, B. Mellor, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**38. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr I. Armstrong (yn sâl), Mrs J. Chamberlain-Jones (ar wyliau), Ms J. Hughes (yn sâl), Mrs P. M. Jones (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), Mrs W. M. Mullen-James (yn sâl), P. Prendergast (ar wyliau), S. H. Ratcliffe (ar wyliau), Miss S. L. Roberts (ymrwymiad gwaith), D. Simmons (yn sâl), W. N. Tasker (ar wyliau) a'r Parchedig S. Walker (ymrwymiad arall).

Adroddodd Clerc y Dref nad oedd y Cynghorydd B. F. Moylan wedi mynychu cyfarfodydd y Cyngor am chwe mis oherwydd salwch, a gofynnodd i'r Aelodau ystyried rhoi caniatâd arbennig i'w absenoldeb parhaus hyd at ddiwedd y cyfnod presennol yn y swydd.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi caniatâd i absenoldeb parhaus i'r Cynghorydd Moylan tan yr Etholiadau ym mis Mai 2017.*

**39. SEIBIANT MIS AWST**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ar y camau a gymerwyd yn ystod y cyfnod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) mewn ymgynghoriad â'r Maer a'r Cadeiryddion perthnasol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r camau a gymerwyd.*

**40. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MEHEFIN 2016**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r atodlen o daliadau a wnaed ym mis Mehefin 2016.

| | Enw'r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 044 | Sage & Co | 30.00 | Ffioedd Cyflogres ar gyfer Mehefin 2016 |
| 045 | BT | 113.04 | Gwasanaethau Rhyngrwyd Mai i Orffennaf 2016 |
| 046 | HSBC | 25.89 | Taliadau Banc hyd at 16eg Mai 2016 |
| 047 | WPS Insurance | 6,146.38 | Premiwm Yswiriant y Cyngor Tref 2016/17 |
| 048 | Gwasg Helygain | 20.52 | Poster ar gyfer y Penwythnos |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Brenhinol |
| 049 | Tower Mint Ltd | 247.80 | Darnau arian coffa ar gyfer y Penwythnos Brenhinol |
| 050 | Gunsmoke Comms | 1,440.00 | Ffioedd Trefnu Digwyddiadau Mai 2016 |
| 051 | Gunsmoke Comms | 22.22 | Medalau Aur ar gyfer y Penwythnos Brenhinol |
| 052 | Sioned Cameron-Graham | 381.11 | Ffioedd Cyfieithu ar gyfer Mawrth ac Ebrill 2016 a’r Cylchlythyr |
| 053 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,613.78 | Cyflogau Staff Mehefin 2016 |
| 054 | HMRC | 2,526.09 | Didyniadau PAYE Mai 2016 |
| 055 | Cyngor Sir y Fflint | 3,631.18 | Didyniadau Pensiwn Mai 2016 a chyllid diffyg |
| 056 | Y Cyngh S Roberts (Maer) | 997.50 | Lwfans y Maer 2016/17 1 o 3 |
| 057 | Y Cyngh A James (Dirprwy Faer) | 332.50 | Lwfans y Maer 2016/17 1 o 3 |
| 014 | Cyngor Sir Ddinbych | 510.00 | Treth Gyngor 2016/17, rhandaliad 3 o 10 |
| 058 | BT | 115.68 | Taliadau Rhentu Mehefin i Awst 2016 |
| 059 | Gwasg Helygain | 1,331.52 | Baneri x 2 |
| 060 | Gunsmoke Comms | 76.36 | Eitemau amrywiol ar gyfer y Penwythnos Brenhinol |
| 061 | Human Jukebox | 980.00 | Ffioedd a Theithio Penwythnos Brenhinol |
| 062 | Faenol Fawr Hotel | 140.00 | Llety ar gyfer yr Human Jukebox 11 Mehefin 2016 |
| 063 | Paul O'Connor (Sol Cinema) | 1,948.00 | Ffioedd, Teithio a Llety Sol Cinema |
| 064 | Blachere | 1,571.14 | Tâl Prydles 2 flynedd (Goleuadau) |
| 065 | Blachere | 4,380.00 | Tâl Prydles 3 blynedd (Goleuadau) |
| 066 | Doug Mortimer – inc | 660.00 | Gwaith Celf ar gyfer y Cylchlythyr |
| 067 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 1,771.80 | Ad-daliad terfynol 2015/16 am wasanaethau |
| 068 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 5,500.00 | Cyllid Gweithiwr Apêl Chwarter 1 2016/17 |
| 069 | Gwasg Helygain | 2,402.55 | Argraffu ar gyfer y Cylchlythyr |
| 070 | Nation Recruit | 104.41 | Staff dros dro wythnos yn dod i ben 26ain Mehefin 2016 |
| | | | |
| | **Cyfanswm Taliadau** | 44,019.47 | |
| | | | |
| | HSBC | 28.38 | Llog ar arian 7 Day Money Market |
| | HSBC | 18.57 | Llog Chwarterol ar y cyfrif Money Market |
| | Cynllun Adneuo Sector Cyhoeddus | 12.34 | Difidend Olaf |
| | | | |
| | **Cyfanswm Derbyniadau** | 59.29 | |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

41. **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – GORFFENNAF 2016**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r atodlen o daliadau a wnaed ym mis Gorffennaf 2016.

| | **Enw'r Cyflenwr** | **Swm** | **Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 071 | Shire Leasing | 337.33 | Prydles System Ffôn Avaya |
| 072 | BT | 342.07 | Galwadau Ffôn a Rhentu Llinell |
| 073 | BT | 92.22 | Galwadau Ffôn a Rhentu Llinell |
| 003 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 4,500.00 | Rhent Chwarter 2 Ffordd Wellington 2016/17 |
| 074 | Neopost | 200.00 | Peiriant Ffrancio – swm atodol |
| 075 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,442.00 | Cynghorydd Hawliau Lles dan Hyfforddiant – taliad 12 o 12 |
| 076 | NWN Media | 96.00 | Hysbyseb i gefnogi Ysgol Uwchradd newydd y Rhyl |
| 077 | Nation Recruit | 178.99 | Staff Dros Dro wythnos yn dod i ben 3ydd Gorffennaf 2016 |
| 078 | Rhyl Steam Preservation Trust | 144.05 | Yswiriant 2016/17 ar gyfer Billy a Phlât Enw |
| 079 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 600.00 | Addasiad i daliadau gwasanaeth Chwarter 1 |
| 080 | St John's Cymru | 100.80 | Cymorth Cyntaf Penwythnos Brenhinol |
| 081 | HSBC | 12.25 | Taliadau Banc 17eg Mai o 18fed Mehefin 2016 |
| 082 | M J Graphics | 192.00 | Baner Blu fechan a gwaelod |
| 083 | Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru | 30.00 | Cinio i'r ddau yn mynychu'r cyfarfod |
| 084 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Trefnu Digwyddiadau Mehefin 2016 |
| 085 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,833.33 | Gweithiwr Apêl Gorffennaf 2016 |
| 086 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,635.19 | Cyflogau Staff Gorffennaf 2016 |
| 087 | HMRC | 2,533.11 | Didyniadau PAYE Gorffennaf 2016 |
| 088 | Cyngor Sir y Fflint | 3,635.64 | Didyniadau Pensiwn Gorffennaf 2016 a chyllid diffyg |
| 014 | Cyngor Sir Ddinbych | 510.00 | Treth Gyngor ar gyfer 2016/17 Rhandaliad 4 o 10 |
| 089 | Nation Recruit | 223.74 | Staff Dros Dro wythnos yn dod i ben 10fed Gorffennaf 2016 |
| 090 | Nation Recruit | 178.99 | Staff Dros Dro wythnos yn dod i ben 17eg Gorffennaf 2016 |
| 091 | Coastal Entertainments (Caffi Glan y Môr) | 500.00 | Cyfraniad tuag at yr Wyl ar 3ydd Gorffennaf 2016 |
| 092 | Bespoke Buffet | 700.00 | Arlwyo ar gyfer Sul Dinesig |
| 093 | Blackwells Stonecraft Ltd | 372.00 | Arysgrifiad ar Senotaff y Rhyl |
| 094 | Conrad | 16.67 | Papurach |
| 095 | Conrad | 107.28 | Papurach |
| 096 | Sage & Co | 30.00 | Ffi Cyflogres Gorffennaf 2016 |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm Taliadau** | 26,983.66 | |
| | | | |
| | HSBC | 23.00 | Llog ar arian 7 Day Money Market |
| | HMRC | 5,521.16 | Ad-daliad TAW Chwarter 1 2016/17 |
| | Santander | 9.04 | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod |
| | | | |
| | **Cyfanswm Derbyniadau** | 5,553.20 | |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 42. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30AIN MEHEFIN 2016 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2016/17

Cyflwynodd Clerc y Dref ai adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid ar y cyd (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar berfformiad o gymharu â'r gyllideb.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *bod Clerc y Dref yn gofyn i'r Siop Cyngor ar Fudd-daliadau am ei hamcanestyniadau ariannol ar gyfer 2017/18 ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol.*

## 43. ADRODDIAD BUDDSODDIADAU

Cyflwynodd Clerc y Dref ai adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid ar y cyd (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar berfformiad buddsoddiadau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 44. BUDDSODDIADAU 2016/17 - ADNEUO

Cyflwynodd Clerc y Dref ai adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid ar y cyd (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am gymeradwyaeth i adneuo Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *adneuo £75,000 i Lloyds am dymor tri mis.*

## 45. POLISI LWFANSAU AELODAU CYNGOR TREF Y RHYL

Ymhellach i gofnod rhif 24 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Gorffennaf 2016, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am arolygu polisi'r Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD****:*

*Penderfyniad 46: Gwrthod costau a threuliau o £100 blynyddol.*
*Penderfyniad 47: Gwrthod uwch rolau x 3 gyda £500 blynyddol i bob un.*
*Penderfyniad 48: Derbyn lwfans dinesig ar y radd bresennol.*
*Penderfyniad 49: Derbyn ad-dalu milltiredd.*
*Penderfyniad 50: Derbyn ad-dalu cynhaliaeth.*
*Penderfyniad 51: Gwrthod lwfans presenoldeb.*

*Penderfyniad 52: Derbyn lwfans colled ariannol.*
*Penderfyniad 53 a 54: Derbyn lwfansau gofal.*

*Clerc y Dref i wneud y darpariaethau priodol yng nghyllideb 2017/18.*

**46. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – SGWRS Y SIR, CYNLLUNIO DYFODOL LLE RYDYCH CHI'N BYW**

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gwahodd y Cyngor Tref i benodi dau neu dri o gynrychiolwyr i fynd i un o'r cyfarfodydd ymgynghori naill ai yn Nhrefnant (22ain Medi) neu Glawddnewydd (27ain Medi).

Teimlai'r Aelodau bod cyfathrebu gwael wedi bod ar hyn yn y Rhyl a'u bod yn bwriadu codi hyn ym Mhwyllgor Craffu priodol Cyngor Sir Ddinbych y diwrnod canlynol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard, A. R. James a B. Mellor yn mynychu digwyddiad 22ain Medi.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *bod Clerc y Dref yn canfod amser dechrau'r digwyddiad a gadael i'r tri chynrychiolydd wybod.*

**47. YMGYNGHORIAD: CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr uchod a chyflwynodd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) gan gynnwys ymatebion a awgrymwyd ar gyfer barn yr Aelodau ar ad-drefnu arfaethedig Cynghorau lleol er mwyn penderfynu ar ymateb swyddogol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r ymatebion a awgrymwyd gan Glerc y Dref (Atodiad B) gyda'r ychwanegiadau canlynol:*

*Eitem rhif 2 – nid oedd gwneud dim yn opsiwn*
*Eitem rhif 6 – nad oedd yn rhaid i Gynghorau Tref dderbyn unrhyw wasanaethau gan Awdurdodau Lleol.*

**48. DYDDIAU PARCIO AM DDIM**

Gofynnodd Clerc y Dref am gymeradwyaeth i'r un trefniant ag y llynedd ar gyfer y pum diwrnod parcio am ddim a gynigir gan Gyngor Sir Ddinbych, os bydd y cynllun yn gweithredu eleni.

***PENDERFYNWYD*** *bod un o'r dyddiau yn cael ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiad troi'r goleuadau Nadolig ymlaen, gyda'r pedwar arall ar y pedwar dydd Sadwrn yn arwain at y Nadolig oni fo angen un o'r dyddiau ar gyfer digwyddiad y Cyngor Tref yn ystod mis Rhagfyr.*

**49. EITEMAU ER GWYBODAETH GAN AELODAU**

Llochesi Promenâd

Adroddodd Aelod y byddai gwaith i osod y tair lloches yn dechrau ar ddydd Llun 12fed Medi.

Roedd yr Aelodau yn falch o glywed y newyddion ond yn siomedig, o ystyried bod dwy o'r llochesi wedi eu prynu gan y Cyngor Tref yn eu cyfanrwydd, nad oedd Cyngor Sir Ddinbych wedi rhannu'r wybodaeth hon yn ffurfiol trwy Glerc y Dref.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelod yn cyflwyno cwyn y Cyngor Tref i Brif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych.*

**50. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**51. GALA'R MAER 2016/17**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer digwyddiad 2016/17.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal y digwyddiad ar 3ydd Mawrth 2017 yn unol â'r gofynion Neilltuaeth yn arwain at Etholiad (Mai 2017) yn Theatr y Pafiliwn a bod y Cyngor Tref yn talu am y noson gyfan er mwyn rhoi mynediad am ddim i'r cyhoedd.*

**52. CINIO ELUSENNOL Y MAER 2016**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer digwyddiad 2016/17.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal y digwyddiad ar 9fed Rhagfyr 2016 yn unol â gofynion Neilltuaeth yn arwain at Etholiad (Mai 2017) a bod y noson yn cael ei thanysgrifennu gan y Cyngor Tref.*

**53. TREFTADAETH – CAIS AM GYMORTH ARIANNOL**

Adroddodd Clerc y Dref ar gais a gafwyd yn ddiweddar gan awdur lleol am gymorth ariannol tuag at gyhoeddi llyfr (adroddiad wedi ei ddosbarthu gyda'r rhaglen) i'r Aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *cyfeirio'r cais i Bwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol y Cyngor i'w ystyried.*

54. **EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU**

Mewn perthynas â chofnod rhif 79 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**55. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………….……..

Dyddiad: …………………………